

Tanwydd ar y tân? Gwerthu alcohol mewn gorsafoedd petrol yng Nghymru



Cyflwyniad

Gall damweiniau yfed a gyrru effeithio ar bob math o ddefnyddwyr ffyrdd, gan gynnwys gyrrwyr, teithwyr a cherddwyr. Drwy gyfuniad o waith plismona ac ymgyrchoedd cyhoedduswydd cyson, llwyddwyd i leihau nifer y damweiniau hyn yn sylweddol dros yr ugain mlynedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, mae cynifer ag un o bob chwe marwolaeth ar ffyrdd y DU yn cael ei hachosi gan yrwyr sydd dros y terfyn alcohol cyfreithiol.¹ Yn 2008, roedd 5,183 o brofion anadl cadarnhaol neu wedi'u gwrthod yng Nghymru.²

Gall yfed o dan ddylanwad alcohol amharu ar farn unigolyn ac felly ar ei allu i yrru'n ddiogel.³ Mae rhai gwledydd wedi gwahardd gwerthu alcohol o garejys/gorsafoedd petrol,⁴ yn bennaf o ganlyniad i'r gydberthynas rhwng yfed alcohol a damweiniau cerbydau modur. Yng Nghymru a Lloegr, fodd bynnag, mae hi'n dal yn gyfreithlon i orsafoedd petrol werthu diodydd alcoholig, os ydynt wedi cael y drwydded briodol.

Mae'r papur briffio hwn yn edrych ar werthu alcohol mewn gorsafoedd petrol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Ysgogi a chyfrannu at ddadl gyhoeddus ehangach ar y pwnc pwysig hwn yw'r bwriad.

Y sefyllfa gyfreithiol gyfredol

Yng Nghymru a Lloegr, roedd Deddf Trwyddedu 1988 yn cynnwys cymal, Adran 9(4), a oedd yn cadw rhai safleoedd rhag cael trwydded i werthu alcohol, sef mannau gwasanaethau traffyrdd a

safleoedd 'a ddefnyddir yn bennaf fel garej'. I fannau gwasanaethau traffyrdd, gwaharddiad llwyr oedd hwn i bob pwrpas, ond i garejys (h.y. safleoedd sy'n gwerthu tanwydd neu safleoedd sydd naill ai'n gwerthu neu'n cynnal a chadw cerbydau modur) roedd y penderfyniad i roi trwydded yn dibynnu ar dehongli'r term 'yn bennaf'. Er mwyn dangos bod y prif ddefnydd yn wahanol i ddefnydd fel garej, byddai'r ymgeisydd fel arfer yn cyflwyno ffigurau ymwelwyr neu ffigurau gwerthiant, wedi'u dosbarthu yn ôl yr hyn a brynwyd.

Mae Adran 176 Deddf Trwyddedu 2003 wedi cadw'r sefyllfa o'r ddeddfwriaeth flaenorol ar y cyfan, gyda chanllawiau gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf ac yn dweud bod rhaid i'r awdurdodau trwyddedu benderfynu a yw unrhyw safle'n 'cael ei ddefnyddio yn y bennaf fel garej'. Fel o'r blaen, disgwyli'r i'r ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth i ddangos nad gwerthu tanwydd yw prif fusnes y garej.

Yn ymarferol, mae'n ymddangos na fydd yr awdurdodau trwyddedu ar y cyfan yn cyfyngu ar werthu alcohol mewn gorsafoedd petrol sydd hefyd yn cynnig ystod sylweddol o fwyd a diod ar werth. Caiff pob cais unigol ei ystyried yn ôl ei deilyngdod, a gellir gwrthod trwyddedau lle y codwyd pryderon gan rai sydd â diddordeb, fel yr heddlu. Fodd bynnag, fel mae un awdurdod trwyddedu yng Nghymru wedi dweud wrth Alcohol Concern Cymru, caiff penderfyniadau i wrthod trwydded fel hyn eu gwrthdroi'n aml ar ôl apelio at y llysoedd.



Briff Alcohol Concern Cymru



Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol



Tanwydd ar y tân? Gwerthu alcohol mewn gorsafoedd petrol yng Nghymru

Brîff Alcohol Concern Cymru

Yn amlwg, mae pryderon ac amwysedd o hyd o ran effeithiolrwydd y rhan arbennig hon o'r ddeddfwriaeth, yn arbennig ynghylch diffinio prif fusnes safle.

“Yfed a gyrru yw un o brif achosion marwolaeth ar ein ffyrdd o hyd. Dylem osgoi rhoi hyd yn oed y demtasiwn o flaen gyrrwyr i yfed alcohol y tu ôl i'r llyw.”

Clive Wolfendale, Prif Weithredwr CAIS a chyn Ddirprwy Brif Gwnstabl Gogledd Cymru, 2010⁵

Cymariaethau rhyngwladol

Mae Ffrainc wedi gwahardd gwerthu alcohol o orsafoedd petrol yn ddiweddar,⁶ er ei bod hi'n rhy gynnar ar hyn o bryd i asesu pa mor effeithiol fu'r mesur hwn wrth ostwng nifer y damweiniau a'r marwolaethau gyrru sy'n gysylltiedig ag alcohol. Felly hefyd, mae'r deddfau trwyddedu yn yr Alban yn gwahardd gwerthu alcohol o flaen-gwrt gorsafoedd petrol,⁷ ond gydag eithriad arwyddocaol, sef os gellir dangos bod y gymuned leol yn ddibynnol (neu'n debygol o ddod yn ddibynnol) ar y safle fel prif ffynhonnell naill ai tanwydd neu fwyd. Bwriad hyn yw osgoi rhoi trigolion lleol o dan anfantais annheg, gan y byddent fel arall yn gorfod teithio'n bellach i brynu'u nwyddau. Fodd bynnag, ac yn debyg i'r sefyllfa yng Nghymru a Lloegr, mae'r amwysedd yng ngeiriad y ddeddfwriaeth wedi arwain at benderfyniadau sy'n gwrthdaro gan y llysoedd ar apêl.⁸

Yn UDA, er bod gwerthu alcohol o orsafoedd petrol yn cael ei ganiatáu mewn rhai ardaloedd, mae nifer o daleithiau wedi gweithredu cyfreithiau sy'n gwahardd meddu ar ddiodydd alcoholig a'u hyfed yn y rhannau o gerbydau modur sydd i deithwyr. Cyfeirir at y rhain yn gyffredin fel 'open container laws', ac maent yn gwahardd meddu ar unrhyw gynhwysydd diod alcoholig agored mewn rhannau o gerbyd modur sy'n hawdd i'r gyrrwr neu'r teithwyr fynd atyn nhw tra byddan nhw yn eu seddau, er enghraifft y blwch menig ac o dan

draed.⁹ Mae o leiaf un astudiaeth yn dangos bod gan y taleithiau heb y deddfau hyn niferoedd uwch o ddamweiniau marwol sy'n gysylltiedig ag alcohol na thaleithiau sydd â'r fath deddfau.¹⁰ Mae Adran Diogelwch Cyhoeddus Texas wedi sylwi bod cynhwysydd agored i'w gael yn y mwyafrif o'r damweiniau heol sy'n gysylltiedig ag alcohol.¹¹ Mae deddfau o'r fath hefyd wedi bod yn gyfrwng i fynegi dymuniad mwy cyffredinol i ddatgysylltu alcohol yn llwyr oddi wrth yrru.¹²

“Dydy alcohol a cheir ddim yn cymysgu, a dyna ni.”

Y Cynol Thomas Davis yr Ifancaf, Cyfarwyddwr, Adran Diogelwch Cyhoeddus Texas, 2001¹³

Gwerthu alcohol o orsafoedd petrol yng Nghymru

Ym mis Mai 2010, comisiynodd Alcohol Concern Cymru arolwg ffôn fyr o staff gwerthu mewn gorsafoedd petrol mewn wyth sir yng Nghymru. O'r 49 a ymatebodd i'r arolwg, cadarnhaodd 16 (33%) eu bod yn gwerthu alcohol o'u safle, a dau ohonynt yn gwerthu alcohol 24 awr y dydd. Mae'r ffigurau hyn yn cyfateb i ganlyniadau arolwg flaenorol a wnaed yng Nghymru a Lloegr, a ganfu fod 31% o orsafoedd petrol yn gwerthu diodydd alcoholig yn ogystal â thanwydd.¹⁴

Roedd hi'n galonogol fod ymatebwyr yn 15 o'r 16 gorsaf petrol yng Nghymru oedd yn gwerthu alcohol wedi dweud eu bod wedi cael hyfforddiant penodol ynghylch gwerthu alcohol i rai o dan 18 oed, tra dywedodd 13 ymatebwr iddynt gael hyfforddiant ynghylch gwerthu alcohol i bobl sy'n feddw. Ni chafwyd manylion am gynnwys yr hyfforddiant hwn, ac mae hi'n werth nodi petai'r ffigurau hyn yn cael eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach, y gallai hyn olygu bod cynifer â 20% o staff gwerthu mewn gorsafoedd petrol heb gael hyfforddiant ynghylch ymdrin â chwsmeriaid meddw sy'n ceisio prynu alcohol.

Tanwydd ar y tân? Gwerthu alcohol mewn gorsafoedd petrol yng Nghymru

Briff Alcohol Concern Cymru



Trafodaeth

Prin fu'r ymchwil hyd yma a wnaed i weld a yw gwerthu alcohol mewn gorsafoedd petrol yn cyfrannu at fwy o yfed a gyrru, ac i ba raddau,¹⁵ ac mae angen rhagor o waith. Fodd bynnag, mae mwy a mwy o dystiolaeth sy'n dangos bod argaeledd alcohol yn cyfrannu at lefelau uwch o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.¹⁶ Felly mae hi'n dilyn bod alcohol sydd ar gael i'w brynu ac yna i'w yfed naill ai'n syth cyn gyrru cerbyd modur neu wrth ei yrru, neu gan deithwyr yn y cerbyd, yn debygol o gynyddu'r perygl o niwed.

"Mae'r llenyddiaeth wedi esgor ar gonsensws gwyddonol clir... Mae'r polisïau mwyaf effeithiol (a chost-effeithiol) yn cynnwys rheoli pris ac argaeledd diodydd alcoholig."
Yr Athro Martin Plant, 2009¹⁷

Mae gorsafoedd petrol, o ran natur, yn agos gysylltiedig â gyrru ac maent yn denu cryn fasnach gan fodurwyr. Mae hi felly'n rhesymol dadlau y gall gwerthu alcohol o safleoedd o'r fath gynyddu nifer yr anafiadau a'r marwolaethau sy'n gysylltiedig ag yfed (er nad yw data'r heddlu'n nodi ar hyn o bryd ble mae alcohol wedi cael ei brynu) a gall hefyd fod yn niweidiol i ymgyrchoedd cyhoeddus sy'n ceisio tynnu sylw at beryglon yfed a gyrru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC), yn ei strategaeth camddefnyddio sylweddau *Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed*,¹⁸ wedi nodi gwahardd gwerthu alcohol mewn gorsafoedd petrol yng Nghymru fel mesur effeithiol i fynd i'r afael ag argaeledd amhriodol alcohol, ac wedi galw hefyd am ostwng y terfyn yfed a gyrru cyfredol.¹⁹

Wrth gwrs, mae gan fodurwyr nifer o gyfleoedd i brynu alcohol o safleoedd ar wahân i orsafoedd petrol, er enghraifft o siopau trwyddedig ac archfarchnadoedd. Mae anawsterau ymarferol hefyd, fel y rhai a nodwyd eisoes ynghylch deddfwriaeth Cymru a Lloegr a'r Alban, o ran gweithredu cyfyngiadau a gwaharddiadau cyson

ac effeithiol ar werthu o'r fath. Felly dylid ystyried mesurau amgen neu ychwanegol, fel deddfwriaeth cynhwysyddion agored, er mwyn gostwng cyfraddau yfed a gyrru ymhellach.

Argymhellion

Mae Alcohol Concern Cymru yn gwneud yr argymhellion canlynol:

1. Dylai fod yn orfodol dangos rhybuddion yfed a gyrru yn y man gwerthu ym mhob gorsaf betrol lle mae alcohol hefyd ar gael i'w brynu. Byddai rhybuddion o'r fath yn fodd i gefnogi ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth am beryglon yfed a gyrru.
2. Dylai fod yn rhaid i unrhyw orsaf betrol sy'n gwneud cais am drwydded alcohol allu dangos y bydd yn darparu hyfforddiant trylwyr i'w staff, naill ai trwy ei ddarparu eu hunain neu drwy ei brynu i mewn, am arferion gwerthu alcohol cyfrifol.
3. Dylid gwneud adolygiad o effeithiolrwydd gwaharddiadau ar werthu alcohol o orsafoedd petrol, a mesurau eraill sydd mewn gwledydd eraill, er mwyn cyfrannu at y trafodaethau am briodoldeb gweithredu mesurau cyfatebol yng Nghymru a Lloegr.
4. Er mwyn cydnabod bod alcohol yn tyfu fel mater iechyd cyhoeddus, ac er mwyn galluogi awdurdodau trwyddedu i roi sylw priodol i hyn, rhaid ychwanegu gwarchod a gwella iechyd cyhoeddus fel pumed maen prawf yn Neddf Trwyddedu 2003 ar gyfer asesu ceisiadau am drwyddedau, gan gynnwys rhai gan orsafoedd petrol.
5. Dylid gostwng y terfyn alcohol yn y gwaed ar gyfer yfed a gyrru yng Nghymru a Lloegr o 80mg/100ml i 50mg/100ml, yn unol ag Adolygiad North,²⁰ ar y sail fod gyrrwyr yn fwy tebygol o fod mewn damwain po uchaf yw lefel yr alcohol yn y gwaed. Ar y cyd â hyn dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i gosbau, a gweithredu'r ddeddf mewn modd amlwg iawn.

Tanwydd ar y tân? Gwerthu alcohol mewn gorsafoedd petrol yng Nghymru

1. Ymgyrch yn Erbyn Yfed a Gyrru, ar-lein, ar gael trwy: <http://www.cadd.org.uk/facts.htm> [defnyddiwyd 29/04/10].
2. Povey, D. (gol), Hand, T., Rishiraj, A. S., a Mulchandani, R. (2010) *Home Office statistical bulletin: Police powers and procedures 2008/09*, Llundain, Y Swyddfa Gartref.
3. Deakon, L., Hughes, S., Tocque, K. a Bellis, M. (2008) *Indications of public health in the English Regions 8: Alcohol*, Lerpwl, Canolfan Iechyd Cyhoeddus, Prifysgol John Moores Lerpwl.
4. Er enghraifft, Ffrainc a'r Alban.
5. Datganiad a roddwyd i Alcohol Concern.
6. Bremner, C. (2008) *France bans alcohol at petrol stations*, Times Online, ar-lein, ar gael trwy: <http://www.timesonline.co.uk/tol/news/world/europe/article3371806.ece> [defnyddiwyd 29/04/10].
7. Licensing (Scotland) Act 2005 (asp 16), Part 9 – Miscellaneous and general, ar-lein, ar gael trwy: http://www.opsi.gov.uk/legislation/scotland/acts2005/asp_20050016_en_1 [defnyddiwyd 29/04/10].
8. Gweler BP Oil (UK) Limited v City of Glasgow Licensing Board (17 Gorffennaf 2009); BP Oil (UK) Limited v City of Edinburgh Licensing Board (22 Rhagfyr 2009); Roc (UK) Limited v City of Edinburgh Licensing Board (25 Ionawr 2010).
9. Gweler gwefan System Gwybodaeth Polisi Alcohol, ar-lein, ar gael trwy: http://alcoholpolicy.niaaa.nih.gov/Open_Containers_of_Alcohol_in_Motor_Vehicles.html [defnyddiwyd 26/05/10]
10. Stuster, J., Burns, a M., Fiorentino, D. (2002) *Open container laws and alcohol involved crashes: Some preliminary data*. DOT HS 809 426, Washington, DC: National Highway Traffic Safety Administration, ar-lein, ar gael trwy: <http://www.nhtsa.dot.gov/people/injury/research/OpenContainer/index.htm> [defnyddiwyd 10/05/10].
11. Datganiad i'r Wasg gan Adran Diogelwch Cyhoeddus Texas, ar-lein, ar gael o: http://www.txdps.state.tx.us/director_staff/public_information/pr082901.htm [defnyddiwyd 13/05/2010].
12. *ibid.*
13. *ibid.*
14. Luty, J., El Hindy, N. a Arokiadass, S. M. R. (2009) *Survey of alcohol sales from fuel outlets in Britain*, Journal of Public Mental Health, 8(1), tt19-20.
15. *ibid.*
16. Anderson, P., Chisholm, D. a Fuhr, D., C. (2009) *Effectiveness and cost-effectiveness of policies and programmes to reduce the harm caused by alcohol*, Lancet, 373, tt2234-46.
17. Plant, M (2009) *Drinking Patterns*, Taflen ffeithiau Alcohol Concern. Copiau caled ar gael gan Alcohol Concern Cymru.
18. Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru 2008-2018*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.
19. *ibid*, t51.
20. Adolygiad North o'r Gyfraith ar Yrru ac Alcohol a Chyffuriau, ar-lein, ar gael trwy: <http://northreview.independent.gov.uk/> [defnyddiwyd 22/06/10].

Briff Alcohol Concern Cymru

Cyhoeddwyd gan Alcohol Concern, ar ran Alcohol Concern Cymru, Sophia House, 28 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ

Ffôn: 029 2066 0248, Ffacs: 029 2066 0249

E-bost: acwales@alcoholconcern.org.uk

Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk

Hawlfraint: Alcohol Concern Gorffennaf 2010

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf (gan gynnwys llungopïo neu storio mewn unrhyw gyfrwng electronig), neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ddull heb ganiatâd y cyhoeddwr a pherchenogion yr hawlfraint.

Mae Alcohol Concern yn elusen gofrestredig rhif 291705 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yn Llundain rhif 1908221.



Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol